Sylwadau Beirniaid CDT 2008

Pierino Algieri -- Yr Adran Ffotograffiaeth

Safon gwaith cynradd yn well na safon uwchradd, yn enwedig Print Du a Gwyn. Gwelwyd llawer mwy o ymdrech gan y cynradd hefyd. Buaswn yn hoffi gweld tlws i'r adran Print Lliw. Angen mwy o ymdrech gan yr adran uwchradd.

Gareth Owen -- Yr Adran Gwaith Creadigol 2D

Yn gyffredinol, braidd yn siomedig oedd y Gwaith Lluniadu Bl 3 a 4, a Gwaith Creadigol Bl 3 a 4, gyda ychydig o waith yn dangos y bwrlwm creadigol a gysylltir fel rheol â'r adran hon. Credaf fod angen i fwy o waith ddod trwodd o'r cylchoedd a'r siroedd er mwyn rhoi mwy o ddewis i'r beirniaid cenedlaethol. Y gwaith a wobrwywyd oedd y gwaith a ddangosai rhywfaint o unigoliaeth ynghyd â effeithiolrwydd gweledol. Roedd y rhai a wobrwywyd yn Gwaith Creadigol 2D Bl 7 ac 8 wedi cyflwyno gwaith cryf a gwreiddiol, ac wedi ymateb yn well i'r thema "Cyswllt" na'r cystadleuwyr o'r sector cynradd. Roedd y gystadleuaeth argraffu Bl. 9 yn wan, yn bennaf oherwydd ansawdd technegol yr argraffu.

Darren Hughes -- Yr Adran Gwaith Creadigol 2D

Llawer o ddarnau o safon uchel iawn, yn enwedig yn y defnydd o'r cyfryngau. Roedd rhai o'r darnau argraffu yn arbennig o dda. Safon uchel ar y cyfan.

Gareth Owen -- Y Gystadleuaeth Celf dan 18

Dyma gystadleuaeth arbennig o dda oedd yn eu gwneud hi'n anodd iawn i wahaniaethu rhwng y tri gorau. Roedd gan y dair uned orau eu cryfderau. Un yn dangos gallu technegol arbennig o aeddfed, ond yn colli ychydig o ddiffyg tystiolaeth o'r broses o gyrraedd at y gwaith terfynol. Un arall yn dangos amrywiaeth anhygoel o arbrofion gyda thechnegau a phrosesau, ond oherwydd cymhlethdod yr arbrofion, yn colli ychydig o'r ffordd wrth ymgyrraedd at y gwaith terfynol. Roedd uned y cystadleuydd buddugol yn wreiddiol, a'r broses o ymgyrraedd at y gwaith terfynol yn amlwg. Roedd y ffaith fod gan yr uned nod a ffocws bendant yn golygu fod y gwaith yn gweithio fel uned.

Bernadette Rippon -- Yr Adran Anghenion Addysgol Arbennig

All the work was at an extremely high standard – it made it very difficult to judge! I have been very impressed with the effort and creativity in this section – a large amount of entries have experimented with a diverse range of materials which has clearly resulted in personal / group creative development. When judging this section, as well as the overall outcome of each piece, I was looking for different concepts on the theme that demonstrated a deeper understanding about 'connection'. A very enjoyable day!

Kathleen Makinson -- Yr Adran Gemwaith

The jewellery made by children in the categories 143, 144 & 145 shows a great deal of innovation and imagination. The choice of objects of every kind have been seen, appreciated and applied in interesting & ingenious ways to come out of the brief. It is quite difficult to decide how much can be achieved by the child alone. Sadly, the work of the older children is less lively, adventurous or skilful.

Ria Thomas -- Yr Adran Caligraffeg

Bl. 6 ac iau
Amrywiaeth eang iawn a diddorol. Gwaith ysgrifen o ansawdd uchel iawn. Yma, gyda nifer wedi eu gosod ar gefndiroedd lliwgar a chyffrous yn gwneud i gynnwys yr ysgrifennu ddod yn fyw. Er hyn, hoffwn weld mwy o'r cystadleuwyr yn rhoi mwy o feddwl i'r thema.
Bl. 7-9
Nifer siomedig iawn o gystadleuwyr yma, o ansawdd is na ddisgwylir o'r grŵp oed yma. Dylai'r cystadleuwyr roi fwy o feddwl i gynnwys y geiriau a sut i orffen y gwaith drwy gefndir diddorol, ac ymarfer yr ysgrifen cyn mynd ati i wneud yr un terfynol. Yr enillydd oedd yr unig un oedd yn sefyll allan fel gwaith gyda meddwl y tu ôl iddo.

Rhian Haf -- Yr Adran Serameg

Braf iawn gweld cymaint o waith wedi ei danio a'i liwio gyda 'glazes' yn hytrach na phaent. Braf iawn hefyd gweld llawer o waith 3D yn dangos arbrofi gyda'r clai. Gwaith o safon uchel iawn ar draws yr adran. Da iawn.

Bedwyr Williams -- Yr Adran Graffeg Cyfrifiadurol

Safon yn eithaf, ond angen i'r rhan fwyaf wario mwy ar bapur printio addas, i ddod a'r gystadleuaeth i fyny at safon y cystadlaethau mwy traddodiadol.

Steffan Hughes-Jones -- Yr Adran Gwaith Creadigol 2D

Good range of entries. Some areas particularly strong. Liked the use of materials in the print. Some very sophisticated work. Enjoyed the interpretation of theme. Wide variety. Well done.

Nerys Hughes / Dilys Ellis -- Yr Adran Gwaith Creadigol 3D

Safon uchel ar draws yr oedran Cynradd. Creadigrwydd a dychymyg ardderchog yn y darnau hynny oedd wedi eu gorffen gyda diwyg glân a chadarn. Ambell gystadleuaeth yn arbennig yn nhermau syniadau syml ond effeithiol o "ddarllen" gofynion y gystadleuaeth. Siomedig oedd yr ymateb yn yr adran Uwchradd o ran

nifer a safon o'i gymharu â'r adran cynradd. Edrychwn ymlaen yn fawr i gael gweld yr arddangosfa orffenedig.

Nerys Hughes / Dilys Ellis - Yr Adran Pypedau

Safon uchel yn y darnau ddaeth i'r brig. Roeddem wedi ein plesio'n fawr yn y buddugwyr ac anodd oedd dewis 1af ar brydiau. Mae'n amlwg eto eleni fod rhaid edrych ar reolau'r gystadleuaeth, e.e. roedd rhai pypedau llinyn wedi eu cynnwys heb y ffrâm ofynnol, neu rai wedi mynd dros ben llestri gyda'r ffrâm bren ac felly yn tynnu oddi ar y gwaith celf, sef y pyped oedd tu fewn i'r ffrâm. Rhaid sicrhau fod y pypedau'n gweithio! Safon yr uwchradd yn dda ond siomedig iawn oedd y nifer yn y gystadleuaeth! Edrychwn ymlaen at weld yr arddangosfa orffenedig yng Nghonwy. Pob lwc!

Bryan Griffiths - Dylunio a Thechnoleg / Creu Arteffact

Cystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg dan 18
Gwaith cynllunio arbennig o dda – wedi ei osod yn chwaethus. Tystiolaeth o arbrofi gyda gwahanol syniadau. Amrywiaeth mewn dulliau cyflwyno gwaith.
Dylunio a Thechnoleg / Creu Arteffact
Safon gwaith cynradd yn dangos mwy o naturioldeb. Dymunwn i'r rhai fydd yn gosod yr arddangosfa i fod yn sensitif i rai o'r cynnyrch. Dylid bod wedi rhoi mwy o sylw i'r gwaith gorffenedig ar beth o'r gwaith, e.e. llwyfan dal y gwaith. Safon arbennig – crochenwaith rhif 357 a ffedog allor rhif 151.